Sicrhau'r gorau gan yr holl BILlau ar gyfer ein cymunedau

Mynd i'r afael ag anghysondebau mewn byrddau iechyd lleol (BILl) oedd ffocws cyfarfod diweddar gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Lesley Griffiths AC.

Cynhaliwyd y cyfarfod ar 5 Rhagfyr, dan nawdd Cynllun y Trydydd Sector.

Yn ymuno â'r trydydd sector, a ddisgrifiwyd gan y Gweinidog fel 'partner pwysig mewn iechyd', oedd Cadeirydd Bwrdd Iechyd Hywel Dda Chris Martin a Chyfarwyddwr Partneriaethau Strategol, Sarah Veck, ynghyd â Phrif Weithredwr PAVS Sue Leonard, i gyflwyno'r ddogfen newydd *Cyd-gynllunio'r dyfodol: Rôl y Trydydd Sector mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Hywel Dda.*

Roedd partneriaid Hywel Dda yn cytuno nad oedd cyflawni'r dull cyd-gynllunio hwn yn hawdd ond roedd yn werth yr ymdrech. Mae'r canlynol yn allweddol i'w gyflawni:

- y cytundeb trosfwaol tridarn;
- rôl CGSau a hwyluswyr iechyd a gofal cymdeithasol lleol a ailddiffiniwyd ar gyfer y dull rhanbarthol hwn, sydd wedi'i ariannu tan 2015;
- comisiynu yn seiliedig ar adnodd ar-lein ar y cyd rhwng Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf *Commission Accomplished* yn *http://www.commissionaccomplished.co.uk/* yn cynnwys Cod Ymarfer a chontractau tair i bum mlynedd;
- gwneud y defnydd gorau o gronfeydd elusennol BILl, gan ddarparu cyllid achlysurol ar gyfer prosiectau gwella gofal iechyd cymunedol cydweithredol.

Yn ôl y Gweinidog roedd hyn yn 'drawiadol iawn', a gofynnodd i dîm Hywel Dda adrodd ar yr hyn a gyflawnir yn y cyfarfod yn haf 2012.

Ar y llaw arall, gwnaeth y trydydd sector dynnu sylw'r Gweinidog at arferion gwael gan rai BILlau sy'n credu, yn gamarweiniol, o dan Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y GIG, a/neu Gyfraith Caffael Ewropeaidd, bod yn rhaid i bob gwasanaeth iechyd gael ei gaffael ac nad oes hawl ganddynt bellach i ddyfarnu grantiau.

Cadarnhaodd y Gweinidog safbwynt Llywodraeth Cymru, a amlinellwyd mewn datganiadau gan y Prif Weinidog, y Gweinidog Cyllid a'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, y bydd grantiau yn parhau i fod yn ffordd bwysig o ariannu nifer o fudiadau trydydd sector. Yn dilyn y cyfarfod hwn mae'r Gweinidog wedi ysgrifennu at WCVA yn ymrwymo i ychwanegu paragraff yn cyfeirio at gyllid grant yn y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.

Mae'r trydydd sector hefyd wedi cyflwyno enghreifftiau o arfer da yn y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid a chael cefnogaeth y Gweinidog i'w sefydlu ar draws yr holl Fyrddau Iechyd Lleol.

Yn olaf, gofynnodd y Trydydd Sector i'r Gweinidog sut mae'n sicrhau bod BILlau ac awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd ar gyfer y canlyniadau cyfannol gorau mewn iechyd meddwl ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Nododd y Gweinidog y Strategaeth Iechyd Meddwl newydd ynghyd â'r rheoliadau sydd ar y gweill ar gyfer y Mesur Iechyd Meddwl yn darparu ffyrdd o gyflawni'r dull unedig hwn sydd mawr ei angen.